



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys

Hap-samplu – Amseroldeb
a Chyfathrebu â'r Achwynnydd

Canfyddiadau ac Adborth SCHTh

Tachwedd 2019

1.0 Trosolwg

Ar 24 Hydref 2019, adolygodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) ddetholiad ar hap o achosion cwyn yr Adran Safonau Proffesiynol a oedd wedi cau ar gyfer y chwarter llawn diwethaf h.y. Gorffennaf – Medi 2019. Prif ddiben y gwaith craffu hwn oedd adolygu amseroldeb/diweddariadau a roddwyd i'r achwynydd gan yr Adran Safonau Proffesiynol yn annibynnol. Os oes unrhyw achosion cwyn sydd wedi'u cau heb eu cofnodi o fewn canllawiau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu a Rheoliadau Cwynion yr Heddlu mewn perthynas ag amseroldeb, sefydlu achos hyn a phenderfynu a oes unrhyw ddysgu i'w nodi.

2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg

Ceir manylion am gefndir a diben y gwaith craffu hwn, ynghyd â'r modd y cyflawnir yr hap-samplu, yn y Fframwaith Craffu ar Gwynion a'r Protocol Hap-samplu, sydd ar gael ar wefan y CHTh ar <http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/the-office/strategies-and-policies/>.

3.0 Achosion Cwyn yr Adran Safonau Proffesiynol Sydd Wedi Cau

Adolygodd SCHTh gyfanswm o 8 achos cwyn a gaewyd rhwng 1 Gorffennaf 2019 a 30 Medi 2019 (10% o'r holl achosion a gaewyd yn ystod y cyfnod hwn). Darparodd yr Adran Safonau Proffesiynol rifau cyfeirnod yr achosion cwyn a oedd wedi cau, ynghyd â chanlyniad yr honiad a'r ardal a oedd yn gyfrifol am y gŵyn. Er mwyn sicrhau ei bod yn ystyried amrediad o achosion cwyn a oedd wedi cau, gofynnodd SCHTh am wyth achos a oedd yn adlewyrchu o leiaf un o bob 'canlyniad honiad' a 'maes cyfrifol'. Isod, ceir crynodeb o'r wyth achos cwyn a ystyriwyd:

Canlyniad Honiad

Datgymhwysiad gan yr Heddlu:	2 achos cwyn
Datrysiaid Lleol:	3 achos cwyn
Heb Ei Gynnal:	1 achos cwyn
Wedi Ei Gynnal:	1 achos cwyn
Wedi Ei Dynnu Yn Ôl:	1 achos cwyn

Ardal Gyfrifol

Sir Gaerfyrddin:	1 achos cwyn
Ceredigion:	1 achos cwyn
Sir Benfro:	1 achos cwyn
Powys:	2 achos cwyn
Pencadlys yr Heddlu:	3 achos cwyn

Cytunwyd y byddai SCHTh yn ystyried yr amser a gymerwyd yn wreiddiol i wneud penderfyniad cofnodi, ac os cafodd y gŵyn ei chofnodi, ystyried y diweddariadau a roddwyd i'r achwynydd (pan oedd angen hynny) o'r cofnodi gwreiddiol hyd nes i'r achos gael ei gwblhau.

3.1 Canfyddiadau Craffu

Penderfyniad Cofnodi

O ran cofnodi, mae Canllawiau Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (a fabwysiadwyd gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu) yn nodi:

“3.21 Mae Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu’n disgwyl i benderfyniad cofnodi gael ei wneud o fewn deg diwrnod gwaith ar ôl derbyn cwyn neu hysbysiad, ond yn ddelfrydol, dylai hyn ddigwydd cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn y gŵyn.”

- Gwnaed penderfyniad cofnodi o fewn 10 diwrnod gwaith ar gyfer yr 8 achos. Mae hyn yn dangos bod yr Adran Safonau Proffesiynol yn ymwybodol o’r canllawiau uchod ac yn anelu i gadw at yr amserlenni a amlinellir. Mae’r Adran Safonau Proffesiynol wedi cydymffurfio mewn 100% o’r achosion a adolygwyd gan SCHTh.
- Nodwyd bod dau achos wedi’u hadrodd wrth Heddlu Dyfed-Powys drwy lwybr ar wahân i’r Adran Safonau Proffesiynol yn wreiddiol. Mewn un achos, roedd yr achwynydd wedi anfon ei gŵyn at Ganolfan Gyfathrebu’r Heddlu ar gyfer sylw’r Prif Gwnstabl. Anfonodd Canolfan Gyfathrebu’r Heddlu’r gŵyn hon ymlaen at yr Adran Safonau Proffesiynol a Swyddfa’r Prif Gwnstabl y diwrnod hwnnw ar gyfer gweithredu. Anfonwyd yr ail gŵyn at Swyddfa’r Prif Gwnstabl yn uniongyrchol, ac anfonwyd y gŵyn hon ymlaen at yr Adran Safonau Proffesiynol 24 diwrnod gwaith ar ôl ei derbyn.

Diweddariadau Ynghylch Cynnydd Cwynion

O ran diweddariadau, mae Rheoliad 12 o Reoliadau (Cwynion a Chamymddwyn) yr Heddlu’n nodi:

“Rhaid darparu’r diweddariad cyntaf yn brydlon ac o fewn 28 diwrnod calendr o ddechrau’r ymchwiliad. Rhaid darparu diweddariadau dilynol o leiaf 28 diwrnod calendr wedi hynny.”

- Mewn tri achos cwyn (37.5% o’r holl achosion a adolygwyd), rhoddwyd ymateb terfynol i’r achwynydd o fewn 28 diwrnod o’r penderfyniad cofnodi gwreiddiol, felly nid oedd angen rhoi diweddariadau i’r achwynydd.
- Mewn un achos (12.5% o’r holl achosion a adolygwyd), rhoddwyd diweddariad i’r achwynydd ar ôl 24 diwrnod, a rhoddwyd ymateb terfynol 15 diwrnod o’r diweddariad cyntaf.
- Rhoddodd yr Adran Safonau Proffesiynol ymateb terfynol o fewn 30 diwrnod ar ôl y penderfyniad cofnodi gwreiddiol (Achos 1: 29 diwrnod ac Achos 2: 30 diwrnod) ar gyfer dau achos cwyn (25% o’r holl achosion a adolygwyd) ac ni roddwyd unrhyw ddiweddariadau i’r achwynwyr.
- Mewn un achos (12.5% o’r holl achosion a adolygwyd), trefnwyd cyfarfod rhwng swyddog o Heddlu Dyfed-Powys a’r achwynydd. Cynhaliwyd y cyfarfod 59 diwrnod ar ôl y penderfyniad cofnodi gwreiddiol. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, penderfynodd yr achwynydd dynnu’r gŵyn yn ôl. Rhoddodd yr Adran Safonau Proffesiynol gadarnhad ysgrifenedig o’r canlyniad hwn i’r achwynydd 13 diwrnod

ar ôl y cyfarfod. Ni roddwyd diweddariadau i'r achwynydd yn ystod y broses gwyno hon.

- Ar gyfer yr un achos sy'n weddill (12.5% o'r holl achosion a adolygwyd), cofnodwyd chwe darn o ohebiaeth rhwng yr Adran Safonau Proffesiynol a'r achwynydd rhwng y penderfyniad cofnodi gwreiddiol a rhoi'r ymateb terfynol i'r achwynydd. Cofnodwyd bod yr Adran Safonau Proffesiynol wedi anfon gohebiaeth at yr achwynydd 6 diwrnod (cyswllt cyntaf) ar ôl y penderfyniad cofnodi gwreiddiol. Yna, cofnodwyd gohebiaeth rhwng yr achwynydd a'r Adran Safonau Proffesiynol 10 diwrnod wedi hynny (2il gysylltiad); yna 21 diwrnod wedi hynny (3ydd cysylltiad), 6 diwrnod wedi hynny (4ydd cysylltiad), yna 18 diwrnod wedi hynny (5ed cysylltiad), yna 46 diwrnod wedi hynny (6ed cysylltiad).

3.6 Ystadegau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Cafwyd yr ystadegau canlynol o Ystadegau Cwynion Heddlu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2018/19:

Penderfyniad Cofnodi

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19, cofnododd Heddlu Dyfed-Powys 97% o achosion cwyn o fewn 10 diwrnod gwaith.

Diweddariadau am Gynnydd Cwynion

Nid yw Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu'n adrodd am ddata mewn perthynas â diweddariadau am gynnydd cwynion, felly nid oes modd cymharu.

3.2 Casgliadau ac Argymhellion

Casgliadau

- O ystyried bod yr achos cwyn wedi'i gyfeirio at Swyddfa'r Prif Gwnstabl yn wreiddiol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod 24 diwrnod gwaith ar gyfer ail-gyfeirio cwyn i'r Adran Safonau Proffesiynol yn ormodol, a byddai'n syrthio'n is na'r safon a ddisgwylir gan achwynydd. Pan mae Heddlu Dyfed-Powys yn derbyn cwyn, dylid gwneud penderfyniad cofnodi o fewn 10 diwrnod gwaith. Mae'r ffaith bod Swyddfa'r Prif Gwnstabl wedi cymryd 24 diwrnod i anfon y gŵyn hon ymlaen at yr Adran Safonau Proffesiynol ar ôl ei derbyn yn golygu bod diffyg cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r gŵyn yn syth (er bod yr Adran Safonau Proffesiynol yn gwneud penderfyniad cofnodi o'r dyddiad maen nhw fel adran yn derbyn y gŵyn yn hytrach na'r dyddiad mae'r Heddlu'n ei derbyn). Yn ogystal, mae'r ffaith bod oedi o ran Swyddfa'r Prif Gwnstabl yn cyflwyno'r achos cwyn i'r Adran Safonau Proffesiynol yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd yr achwynydd yn gwneud cwyn pellach i SCHTh yn erbyn y Prif Gwnstabl.
- Yn yr achos lle y trefnwyd cyfarfod 59 diwrnod ar ôl y penderfyniad cofnodi cychwynnol, ymdriniwyd â'r achos ar lefel ranbarthol yn hytrach nag yn ganolog gan yr Adran Safonau Proffesiynol. Mae'n bosibl bod dyddiad y cyfarfod wedi'i gytuno gan y ddau barti yn gynnar yn y broses gwyno, fodd bynnag, does dim tystiolaeth wedi'i chofnodi i gefnogi hyn ac nid oes unrhyw ddiweddariadau ar

gyfer yr achwynydd wedi'u cofnodi, sydd yn groes i'r canllawiau a nodir yn Rheoliadau (Cwynion a Chamymddwyn) yr Heddlu 2012.

- Mewn perthynas â'r achos cwyn lle'r oedd angen sawl diweddariad, roedd yr Adran Safonau Proffesiynol mewn cysylltiad rheolaidd â'r achwynydd drwy gydol y broses o ganlyniad i ymholiadau yr oedd eu hangen er mwyn dod i benderfyniad terfynol, yn hytrach na diweddariadau rheolaidd wedi'u trefnu (bob 28 diwrnod). Fodd bynnag, mae'n galonogol gweld bod cysylltiad rhwng yr Adran Safonau Proffesiynol a'r achwynydd yn rheolaidd drwy gydol y broses.

Argymhellion

- Dros y 3 mis nesaf, os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes, dylai'r Adran Safonau Proffesiynol gofnodi nifer y diwrnodau rhwng y dyddiad y mae'r Heddlu'n derbyn cwyn a'r dyddiad y mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn ei derbyn, gan gynnwys yr adran yr anfonwyd y gŵyn ati'n wreiddiol gan yr achwynydd.
- Dylai copi o'r adroddiad hwn fod ar gael i'r Prif Gwnstabl a dylid adolygu'r strwythur gweinyddol yn Swyddfa'r Prif Gwnstabl er mwyn nodi pa un ai a digwyddiad unigryw oedd hyn, neu a yw'n fater ailadroddus. Dylid rhoi diweddariad yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona.
- Mae angen trosolwg ar SCHTh gan yr Adran Safonau Proffesiynol er mwyn hysbysu sut mae'r adran yn rheoli cydymffurfiaeth â Rheoliadau (Cwynion a Chamymddwyn) yr Heddlu 2012 mewn perthynas â chyswllt â'r achwynydd pan mae staff/swyddogion rhanbarthol yn rheoli cwyn.

3.3 Sylwadau'r Adran Safonau Proffesiynol

Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn croesawu canfyddiadau adroddiad hap-samplu dechreuol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a grynhowyd fel rhan o'r Fframwaith ar gyfer Craffu ar Gwynion. Mae hyn yn cynnig cyfle i gydweithio â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu er mwyn gwella ein perfformiad ac ansawdd y gwasanaeth rydyn ni'n cynnig.

Calonogol oedd nodi bod yr wyth achos a adolygwyd wedi'u cofnodi o fewn 10 diwrnod gwaith. Yn y gorffennol, nodwyd bod angen gwelliant yn y maes hwn, ac mae'r adran wedi rhoi nifer o fesurau ar waith er mwyn gwella perfformiad, fel sy'n cael ei adlewyrchu gan ystadegau Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu.

Nodwyd yr un achos lle y cymerwyd 59 diwrnod i gwrdd â'r achwynydd, er, mae gohebiaeth rhwng y swyddog a'r achwynydd yn dangos bod cysylltiad wedi'i wneud cyn y 59 diwrnod. Yn yr achos penodol hwn, ymddengys mai cofnod anghyflawn o gysylltiad yw'r broblem.

Mae hyn wedi amlygu man gwan posibl, lle yr ydym yn diweddarau achwynwyr yn briodol, ond yn methu â dangos tystiolaeth o hyn. Mae'r mater hwn wedi'i nodi, a bydd yr Adran Safonau Proffesiynol yn adolygu'r broses ar gyfer dogfennu cyswllt er mwyn sicrhau ei fod yn ddigon cadarn.

Ymateb i Argymhellion:

- Ar hyn o bryd, mae'r dyddiad y mae'r Heddlu'n derbyn cwyn a'r dyddiad y mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn ei derbyn yn cael eu cofnodi a'u cipio ar Centurion, a gellir cynhyrchu adroddiad er budd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Fodd bynnag, dylid nodi na fydd dyddiadau'n cael eu cipio yn y ffordd hon mwyach pan ddaw'r diwygiadau newydd i rym ar 1 Chwefror 2020, a bydd newid pwyslais o ran pryd y mae cwynion yn cael eu derbyn a'u cofnodi.
- Mae copi o'r adroddiad hwn ar gael ar gyfer y Prif Gwnstabl. Bydd Goruchwylydd Cwynion a Chamymddwyn yr Adran Safonau Proffesiynol hefyd yn ymgysylltu â staff y Prif Gwnstabl er mwyn sicrhau bod proses gyfeirio addas mewn grym.
- Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn darparu cyflwyniadau hyfforddi amrywiol i swyddogion a staff, sy'n ymdrin â thrin cwynion, gan gynnwys cyfathrebu ag achwynwyr. Yn ogystal, pan mae swyddog neu aelod staff yn derbyn cwyn i'w thrin, mae'n cael ei atgoffa o'r angen ar gyfer rhoi diweddariad statudol i'r achwynydd.

Ar gyfer dibenion llwybr archwilio, mae'r triniwr cwynion yn cofnodi cysylltiad ag achwynydd ar y templed Datrysiad Lleol, neu, yn achos ymchwiliad, ar y ffurflen cofnod o gyswllt ategol.

Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn gwirio'r cofnodion yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod achwynwyr yn derbyn diweddariadau fel y dylent. Os yw'n ymddangos fel pe bai diffyg cydymffurfiaeth ac mae angen ar gyfer hyfforddiant yn cael ei nodi, mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn cymryd camau dilynol priodol.